CYNGHRAIR YSGOLION A CHEFNOGWYR

Datganiad i'r Wasg 18.03.08

Mae datganiad diweddar arweinwyr Cyngor Gwynedd, sy'n galw am ohirio rhan o gynllun ad-drefnu ysgolion cynradd y sir, yn gwneud y llanast yn waeth ac yn creu mwy o ansicrwydd. Dylai arweinwyr y Cyngor dderbyn unwaith ac am byth bod rhaid cychwyn yr holl broses ad-drefnu o'r newydd, a phwyswn ar y Cyngor i gael gwared â'r cynllun drafft presennol yn ei gyfanrwydd. Rhaid gwneud hynny os yw'r Cyngor am adennill ymddiriedaeth y cyhoedd yn y mater hollbwysig hwn.

Mae arweinwyr y Cyngor yn dal i ddilyn y Cynulliad yn slafaidd yn hytrach nag ymateb i etholwyr Gwynedd ei hun. Mae'r Cyngor yn rhy barod i ddilyn argymhellion biwrocratiaid Caerdydd yn hytrach nag ymateb i anghenion addysgol, diwylliannol a chymdeithasol Gwynedd. Dyletswydd a chyfrifoldeb y Cyngor yw diwallu anghenion pobl Gwynedd.

Mae'r Gynghrair Ysgolion a Chefnogwyr yn galw ar yr cyngor i roi'r cynllun drafft heibio yn gyfan gwbl, a mynd ati i lunio cynllun drafft newydd. Cyn llunio cynllun drafft newydd, dylai'r Cyngor gynnal astudiaethau clystyru a ffurfiau amgenach o ffederaleiddio. Gofynnwn i'r Cyngor edrych ar bolisïau trefnidaeth ysgolion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a galw ar y Cynulliad i wneud yr un modd. Dylid pwyso hefyd ar y Cynulliad i edrych ar bolisïau gwledydd Llychlyn, yn ogystal ag edrych ar y ffordd y mae llywodraethau Catalwnia, Gwlad y Basg a'r Swistir yn cynnal ysgolion cynradd yn eu parthau iaith. Ar hyn o bryd does gan y gwleidyddion a'r biwrocratiaid yng Nghymru ddim gweledigaeth gyflawn ar ddyfodol cefn gwlad. Dyna'r rheswm pan nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru strategaeth gyfansawdd ar gyfer y Gymru wledig a fyddai'n cynnal a chryfhau'r pentrefi bychain a'r ardaloedd gwasgaredig.

Mae'r Gynghrair yn galw ar bob ymgeisydd a fydd yn sefyll yn etholiadau'r cyngor sir yng Ngwynedd fis Mai i ddatgan yn gwbl glir ei safbwynt ynglŷn â chynllun draft y Cyngor ar ad-drefnu ysgolion cynradd. Gofynnwn i bob ymgeisydd ddatgan yn ei lenyddiaeth etholiadol ei fod ef neu hi yn galw ar y Cyngor i gael gwared â'r cynllun drafft presennol yn gyfan gwbl, a mynd ati i lunio cynllun drafft newydd yn seiliedig ar y tri gofyniad isod.

1. proffiliau ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol o'r ysgolion a'r cymdogaethau; ac asesiadau ardrawiad ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol mewn perthynas â'r ysgolion a'r cymdogaethau.
2. astudiaethau cymharol helaethach er mwyn ehangu'r dewisiadau i gynnwys cydweithio ffurfiol a gwahanol fathau o glystyru ac o ffederaleiddio.
3. barn rhieni a chyrff llywodraethol lleol.

Gweithgor- Ieuan Wyn, Myrddin ap Dafydd, Thomas Prys Jones, Ffred Ffransis
Cydlynydd – Sian Parri
www.ysgol.co.uk